Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bendigaid William Davies

Cilgant Bodnant
Llandudno
Conwy
LL30 1LL

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bendigaid William Davies

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bendigaid William Davies |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Catholig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 132 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 98 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 16 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 19.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 20.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 40.8% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/05/2020 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/09/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16/06/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Bendigaid William Davies yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol sy’n dathlu natur amrywiol cymuned yr ysgol yn dda. Mae bron pob un o’r disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn, maent yn mwynhau’r ysgol ac yn teimlo’n ddiogel.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w gwella. Mae datblygiad proffesiynol staff wedi arwain at welliannau mewn meysydd allweddol o waith yr ysgol, er enghraifft mewn datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae cwricwlwm difyr yr ysgol, sy’n canolbwyntio’n gadarn ar werthoedd a chredoau cryf, yn darparu llawer o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu hyder a’u creadigrwydd. Mae’r cwricwlwm dilys a chynhwysol yn sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn cael eu cynrychioli.

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth hynod effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai y mae’r Saesneg yn newydd iddynt. O ganlyniad, mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da â’u medrau llythrennedd a rhifedd. Maent yn datblygu rhuglder mewn darllen ac yn ysgrifennu’n aeddfed at ystod o ddibenion. Mae athrawon yn cynllunio’n effeithiol i sicrhau bod dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol yn cael ei datblygu’n raddol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol cryf ac yn defnyddio ystod o dechnoleg i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

Mae cyflymdra da i fwyafrif y gwersi ac mae athrawon yn defnyddio holi addas i ddyfnhau ac ymestyn y dysgu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn herio disgyblion yn ddigon da i uchafu eu dysgu, ac mae gweithgareddau yn aml yn cael eu gor-gyfarwyddo gan staff, sy’n cyfyngu ar y cyfleoedd i ddatblygu eu medrau dysgu’n annibynnol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau da at ddysgu ac yn ymgysylltu’n dda yn eu gwersi. Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i adolygu eu dysgu, ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod pa mor dda y maent yn gwneud a beth yw eu camau nesaf.

Mae llywodraethwyr yn darparu cefnogaeth gref ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol. Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn monitro cyfraddau presenoldeb yn dda. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu’n rheolaidd, mae absenoldeb parhaus yn parhau i fod yn broblem i leiafrif o ddisgyblion. Mae’r ysgol wedi datblygu perthnasoedd cryf â rhieni ac mae’n ymgysylltu’n dda â’r gymuned leol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol yn eu dysgu

A2. Sicrhau bod gweithgareddau a thasgau ffocws yn addas o heriol ac yn galluogi pob un o'r disgyblion i wneud y cynnydd gorau y gallant

A3. Parhau i wella presenoldeb

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gynradd Bendigaid William Davies yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol sy’n dathlu natur amrywiol cymuned yr ysgol yn dda. Mae bron pob un o’r disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn teimlo’n ddiogel, ac yn dangos gofal am, a pharch at, ei gilydd. Mae gweledigaeth yr ysgol yn canolbwyntio ar sicrhau bod disgyblion yn hapus a diogel, ac yn cael ei hymgorffori’n dda ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae’r pennaeth wedi cydweithio â staff i feithrin capasiti arweinyddiaeth yr ysgol ar bob lefel. Mae arweinwyr yn gwerthuso cryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w gwella yn rheolaidd ac yn gywir. Mae ganddynt rolau a chyfrifoldebau clir a phrosesau gwella tra ystyriol sy’n cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth yr ysgol a chynnydd disgyblion. Mae datblygiad proffesiynol staff wedi arwain at welliannau mewn meysydd allweddol o waith yr ysgol. Er enghraifft, yn dilyn ffocws ysgol gyfan ar ddatblygu medrau Cymraeg, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu geirfa Gymraeg a phatrymau brawddegau Cymraeg newydd, ac maent yn modelu’r iaith yn fedrus. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill medrau Cymraeg cryf ac yn dangos agweddu cadarnhaol at ddysgu Cymraeg.

Mae staff wedi creu cwricwlwm difyr sy’n canolbwyntio’n gadarn ar werthoedd cryf a chredoau Catholig ac yn darparu ehangder a dyfnder dysgu addas ar gyfer disgyblion. Mae’r cwricwlwm yn darparu llawer o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu hyder a’u creadigrwydd, er enghraifft trwy gynrychiolaeth artistig o storïau’r Beibl. Mae natur ddilys a chynhwysol y cwricwlwm yn sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn cael eu cynrychioli. Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o brofiadau i ddatblygu eu dealltwriaeth o’r gymuned leol, Cymru a’r byd ehangach. Mae ymweliadau’r ysgol ag amgueddfeydd a chestyll lleol, er enghraifft, yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn ymestyn eu dealltwriaeth o hanes lleol yn llwyddiannus. Mae gan ddisgyblion lais cryf yn eu dysgu ac ym mywyd yr ysgol. Mae staff yn sicrhau cyfleoedd mynych a gwerthfawr i ddisgyblion ddangos cyfrifoldeb a chefnogi eu cyfoedion. Er enghraifft, mae ‘Cyfeillion Maes Chwarae’ (‘Playground Pals’) yn modelu ymddygiad ystyriol tuag at ei gilydd ac yn helpu eu cyfoedion â strategaethau i gyd-chwarae yn dda ar iard yr ysgol.

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth hynod effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai y mae’r Saesneg yn newydd iddynt. Mae staff yn nodi anghenion disgyblion yn gyflym ac mae arweinwyr yn darparu dysgu proffesiynol buddiol i helpu staff i ddeall anghenion datblygu unigolion, a sut orau i’w cefnogi. O ganlyniad, mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn.

Mae disgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando cryf. Maent yn rhoi esboniadau manwl ac yn defnyddio ystod eang o eirfa i siarad am fywyd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu rhuglder mewn darllen. Mae disgyblion iau yn seinio geiriau newydd ar goedd yn gywir, ac yn siarad yn hyderus am hoff awduron a llyfrau y maent wedi eu darllen. Mae disgyblion hŷn yn darllen â mynegiant ac yn casglu ystyr o destunau. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn dda. Mae disgyblion iau yn gwneud cynnydd cyflym, ac erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n aeddfed at ystod o ddibenion. Maent yn nodi nodweddion gwahanol genres ac yn defnyddio'r nodweddion hyn yn dda yn eu hysgrifennu eu hunain. Maent yn cyflwyno'u gwaith yn ddestlus ac yn golygu eu gwaith yn fedrus i wneud gwelliannau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf â'u medrau mathemategol. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau bod dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol yn datblygu'n raddol. Mae ychydig o athrawon yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso'r ddealltwriaeth hon ym meysydd eraill y cwricwlwm a chymhwyso'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau ystyrlon. Mae athrawon yn cynllunio ystod o dasgau diddorol a difyr sydd wedi'u cynllunio i ddatblygu ac ymestyn medrau digidol disgyblion. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol cryf ac yn defnyddio ystod o dechnoleg i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn defnyddio offer deallusrwydd artiffisial yn greadigol i gynhyrchu delweddau i esbonio'u hysgrifennu.

Mae cyflymdra da i fwyafrif y gwersi ac maent yn cynnig lefelau addas o her i ddisgyblion i gefnogi eu dysgu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn herio disgyblion yn ddigon da ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i wneud y cynnydd gorau y gallant. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau da at ddysgu ac maent yn ymgysylltu'n dda yn eu gwersi. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi addas i ddyfnhau ac ymestyn dysgu. Mewn mwyafrif o wersi, mae staff yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion wneud penderfyniadau am y strategaethau y byddant yn eu defnyddio i gwblhau tasgau a sut byddant yn cyflwyno'u gwaith. Fodd bynnag, caiff llawer o weithgareddau eu gor-gyfarwyddo gan staff ac, yn yr achosion hyn, caiff disgyblion gyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol. Mae'r ysgol wedi cydweithio ag ysgolion lleol i ddatblygu ymagwedd gyson at farcio gwaith disgyblion. Mae'r ymagwedd gyffredin hon, ynghyd â dealltwriaeth y disgyblion o'r meini prawf dysgu clir, yn cryfhau gwybodaeth disgyblion am yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a'r camau nesaf. Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i adolygu eu dysgu ac asesu eu cynnydd nhw, a chynnydd eu cyfoedion. Ochr yn ochr â thargedau unigol, mae hyn yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod pa mor dda y maent yn gwneud a beth yw eu camau nesaf.

Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth cryf ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol. Mae ganddynt wybodaeth dda am gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu, y maent yn ei hennill trwy ystod o ymweliadau ysgol a gweithgareddau gwerthuso. Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn monitro cyfraddau presenoldeb yn dda. Mae'r ysgol yn cydweithio'n bwrpasol ag ystod o asiantaethau allanol i wella presenoldeb a phrydlondeb disgyblion. Mae'r camau hyn wedi arwain at bresenoldeb gwell. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'n rheolaidd, mae absenoldeb parhaus yn parhau i fod yn broblem i leiafrif o ddisgyblion.

Mae'r ysgol wedi datblygu perthnasoedd cryf â rhieni ac mae'n ymgysylltu'n dda â'r gymuned leol. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ganu yn yr eglwys ac ymweld â chartrefi preswyl lleol. Mae rhieni'n gefnogol iawn i'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt i ymweld â'r ysgol a bod yn rhan o daith ddysgu eu plentyn. Mae llawer o rieni'n hynod fodlon â'r cymorth y mae'r ysgol yn ei ddarparu ar gyfer dysgu a lles disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder a thynnwyd sylw'r awdurdod lleol at hyn.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/08/2025